

170)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.Zoom --7.30pm—21/02/22-----

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:Annette Davies,M.Griffiths,H.Lewis,G.Jones,V.Davies,D.Davies,M.Evans S.Mason,Y.Griffiths,S.Mason,Arwel Davies.

**Ymddiheuriadau**(apologies):E.Jones                      Clerc:Anita Evans, Heddlu: neb.

Methodd Commisiynydd yr Heddlu/Police Commissioner failed to attend.

1)**Cadeiriwyd** gan M.Griffiths;croesawodd bawb a nodwyd ymddiheuriadau/a word of welcome from chairman M.Griffiths,and apologies noted.

2)**Datgan diddordeb**:neb;no declaration of interest by members.

3)**Heddlu**—neb yn bresennol;no police present,no info either.

4)**Cofnodion mis Ionawr**/January minutes-cywir/found to be a true record(prop.M.Evans;sec.D.Davies).

5)**Materion y Clerc**/Clerk matters:

a)o'r Cyngor Sir:cadarnhâd fod ein llythyr o gwyn wedi ei dderbyn;golau VAS Gwyddgrug i'w archwilio;Tony Williams wedi addo gwella'r clustogau cyflymder,archwilio hewl Rhiwlwyd,Dolgran,a chodi'r arwyddion ffyrdd sy ar lawr;golau Newydd Marshlands ar waith—ond mae'r bin halen wedi ei ddifrodi—archebir un arall.

b)Mynwent Troedyrhiw—wedi bod lan am ocsiwn-Clerc wedi cysylltu â'r cwmni gwerthu i bwyntio allan fod dim mynedfa i'r Fynwent o'r Capel.Heb glywed nôl;c)Lleoli defibrilydd i New Inn—H.Lewis wedi ffonio BT —ond heb gael caniatâd eto;

Carm.Co.Council:our complaint letter has been received;Gwyddgrug speed light to be inspected;Tony Williams promises to repair the speed cushions,inspect the road past Rhiwlwyd Dolgran,reset the road signs which are on the ground;new street light in Marshlands is erected but the salt bin has been damaged.

Troedyrhiw Cemetery—Clerc has contacted auction house who are selling the Chapel,pointing out there is no entrance into the Cemetery---was promised a follow up e-mail-but not arrived.H.Lewis has spoken to BT regarding placing the New Inn defibrillator in the phone box—no permission as yet.

6)Cyfrifon/Finances:cafwyd y fantolen yn gywir/statement correct(prop.S.Mason,sec.Y.Griffiths).Roedd y Cyngor llawn wedi derbyn cofnodion yr is-bwyllgor cyllid,ac fe'u derbyniwyd yn ffurfiol-cynnig B.Cobain,eilio M.Evans.Fe fydd y Cyngor yn gwneud cais am yr un praecept a llynedd sef £49,000—V,Davies yn cynnig a G.Jones yn eilio.Taliadau brys-rhoddyd caniatâd i'r Clerc dalu biliau brys lan hyd £500.00(e.e yn ystod Awst/Rhagfyr pan nad oes cyfarfod)D.Davies yn cynnig a V.Davies yn eilio.Biliau i'w talu:

Cyflogau:£2,028.02;    costau'r Clerc ffon a stampiau:£21.80;    Zoom £11.99;                      Dyfed Alarms: £78.00

Kangaloos: £150.00; Un Llais Cymru(hyfforddiant/training):£90.00; KJEngineering enwau rhesi'r Fynwent:£294.00

171)Pasiwyd eu talu/to be paid(prop.H.Lewis,sec.D.Davies)Pris wedi ei dderbyn oddiwrth Roy Thomas a'i Fab am hysbysfwrdd Newydd I Mynwent y Plwyf o £493.79.Cynnigiodd H.Lewis ei dderbyn ac eiliodd D.Davies.

The minutes from the finance sub-committee were duly accepted by the whole Council—proposed by B.Cobain,seconded by M.Evans.This Council will request the same praecept as last year--£49,000.This was proposed

by V.Davies and seconded by G.Jones.All agreed.The Clerk was given permission to pay emergency bills up to £500.00(e.g.when no meetings August and December).D.Davies proposing and V.Davies seconded.

7)**Cynllunio/planning:** rhain wedi eu eostio—dim gwrthwynebiad/e-mailed with no objection:

Skanda Vale,Gwastod Abbot New Inn.

**8)Gohebiaeth/Correspondence:**

C.Sir Gar/Carm.Co.Council:

i)angen anfon gwybodaeth am y Côd Ymddygiad,a Datganiadau o Ddiddordeb.

ii)canllawiau am Etholiadau teg.

iii)Ymateb D.King i'n llythyron am broblemau ffordd.Mae gwaith wedi ei wneud yn agos i Benraigwen.Bydd y ffordd o Blygyrhiw i Dangraig yn cael ei harchwilio;ma arwyneb ffordd sy'n troi am Bontweli o'r ffordd newydd yn mynd i gael sylw yn ystod yr wythnosau nesa.Ynghlŷn â'n cais am gyfarfod safle-mae'n gofyn am leoliadau(eto)er mwyn gwneud asesiad risg ymlaen llaw.

Bu trafodaeth,a phenderfynwyd dewis hewl dan Bont Dryslwyn,y ffordd nes ymlaen heibio Tŷ Newydd; Gwyddgrug—o'r tro mas o'r pentref am Gaerfyrddin i ben hewl Lan,a'r troad am y fferm wynt.

Carm Co.Council:

i)The monitoring dept.need information on how many Councillors attended a Code of Conduct training between April 1<sup>st</sup> 2019 and 31<sup>st</sup> March 2020;also the number of declarations registered during that period.

ii)Fair and respectable Elections document which has been drawn up by 22 Council leaders in Wales.

iii)Responses by D.King to our highway worries.He states that work has been carried out in the vicinity of Pencraigwen;the road from Plygyrhiw to Dangraig is to be inspected;the turning for Pontweli from the new road(Pencader end)-is to be resurfaced.Re our request for a site meeting on worst spots,Councillors chose road under Dryslwyn bridge,stretch past Tynewydd to Penlan junction,Gwyddgrug bend past Maesyberllan to Lan turning,and the junction for the wind farm opposite Llwynwallter and White Hart.

**Eraill/Other:**

iv)PIDA,Pencader wedi anfon llythyr yn gofyn a oes unrhyw drefniadau ar y gweill i ddathlu Jiwbili'r Frenhines gan y Cyngor yma.Gofynnir hefyd a oes swm o arian wedi ei glustnogi,y byddai mudiad yn gallu ymgeisio.Does dim cynlluniau gan y Cyngor yma.Ynghlŷn â chyfrannu'n ariannol,rhaid cael gwybodaeth manwl ar beth fydd yr arian yn cael ei wario.Anfonir ateb i PIDA.

v)Polisiau—oddiwrth M.Griffiths—yr iaith Gymraeg;iechyd a diogelwch;rheolau sefydlog.Fe'u derbyniwyd—H.Lewis yn cynnig a D.Davies yn eilio.Diolchwyd yn fawr iddo am ei waith caled.

172)vi) Clerc am wneud cwyn ynghlŷn â'r hysbysfwrdd tu allan i'r Pwerdy,sy'n perthyn i'r C.Cymuned.Does dim lle i roi eitemau yno oherwydd ei fod yn llawn o bosteri'r Pwerdy.Hefyd ma'r clo wedi torri.Pasiwyd prynu clo newydd,ond bydd rhaid siarad â'r swyddogion.

iv)Correspondence from PIDA asking if the Council has any plans to celebrate the Queen's Jubilee,and also if there's a sum of money which can be accessed.There are no plans.Regarding a donation,we would need detailed information on spending.A letter will be sent to PIDA.

v)M.Griffiths has produced another set of policies—the Welsh Language,health and safety,and Standing Orders.They were formally adopted-H.Lewis proposed and D.Davies seconded.He was thanked for all his hard work.

vi)Complaint from the Clerk re the noticeboard the Council purchased and placed on Powerhouse wall,which they share.There is no room to place Council business,as it's filled with posters.The handle and lock are broken.It was passed to arrange repairs,and to speak to members of the committee.

---

**9)UFA/AOB—info.only:**

Yn naturiol,yn dilyn y tywydd gwael mae gofidiau am ddŵr ar y ffyrdd.Dywedodd Arwel Davies fod tyllau cas ar bwys y glustog rhwng Bee Hive a'r ysgol;S.Mason yn adrodd fod coeden yn yr Ardd Goffa wedi cwmpo;V.Davies –dŵr yn dod mas o Bro'r Hen Wr;Clerc-twill parhaol ar bwys clustog Nantgwyn,New Inn,palmant tro y Nant yn llawn sbwriel.

Sgwâr New Inn—arwydd stop ar y ffordd,ond y polyn yn dal i ddweud Give Way.

Following bad weather,many reports re water on roads.Arwel Davies said potholes on the road near speed cushion between Bee Hive and the school;V.Davies—water coming from Bro'r Hen Wr;S.Mason –tree in the Remembrance Garden(Parish Cemetery)-has fallen.

Clerk:pothole by Nantgwyn speed cushion in New Inn;pavement on the bend near Nant covered in litter;junction with mountain road—the signpost says Give Way,and the road is painted Stop.

---

Meeting ended 8.40pm